# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Mehefin 2020

Amser: 10.00 - 12.30

Gellir gwylio’r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6369

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau’r Cynulliad: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>David Melding AS (yn lle Suzy Davies AS)<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS |
| Tystion: | Jeremy Miles AS, Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit<br>Des Clifford, Llywodraeth Cymru<br>Chris Warner, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Nia Moss (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriad hefyd gan Suzy Davies AS. Roedd David Melding AS yn bresennol i ddirprwyo ar ei rhan am ran o’r cyfarfod.

## 2 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 2.1 SL(5)555 - Rheoliadau Cyfrifiad (Cymru) (Diwygio) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd, ac i drafod ymateb Llywodraeth Cymru mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 ond sydd â goblygiadau o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE

### 3.1 SL(5)553 - Rheoliadau Taliadau i Ffermwyr (Rheolaethau a Gwiriadau) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd i dynnu sylw at faterion sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

## 4 Adroddiad Rheol Sefydlog 30B: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Fframweithiau Cyffredin

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r adroddiad.

## 5 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

### 5.1 WS-30C(5)161 - Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

## 6 Papur(au) i'w nodi

### 6.1 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 6.2 Llythyr gan y Prif Weinidog ar y Pwyllgor Busnes: Deddf Senedd ac Etholiadau 2020

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 6.3 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd a Deddfwriaeth Ychwanegol: Gohebiaeth gan Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 6.4 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Offeryn Statudol ar gyfer y DU gyfan – Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 6.5 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Offeryn Statudol ar gyfer y DU gyfan – Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Terfynau Uchaf) 2020

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 8, 9 a 10:

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 8 Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cyllid – trafod yr adroddiad drafft.

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ac fe'i derbyniwyd.

## 9 Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus) – trafod yr adroddiad drafft.

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ac fe'i derbyniwyd.

## 10 Biliau'r DU yn ymwneud â gadael yr Undeb Ewropeaidd – papur briffio

Trafododd y Pwyllgor y papur briffio gan ymchwilwyr y Senedd a chytunodd y dylid parhau i fonitro'r sefyllfa o ran Biliau'r DU sy'n ymwneud â gadael yr Undeb Ewropeaidd, a pharatoi diweddariadau'n rheolaidd.

## 11 Y newid yng nghyfansoddiad Cymru: Sesiwn dystiolaeth 6

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion.

## 12 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 13 Y newid yng nghyfansoddiad Cymru – trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a chytunodd i drafod y prif faterion sy'n deillio o'r ymchwiliad mewn cyfarfod yn y dyfodol.